



Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD IAU, 15FED TACHWEDD, 2018

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU YN UNIG AM 10.00YB

Lleoliad

Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Pwynt Cyswllt

Eirian Roberts

01286 679018

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 7 Tachwedd 2018)

PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Elin Walker Jones
Olaf Cai Larsen
Linda Ann Jones
Peter Read

Alan Jones Evans
Dafydd Owen
Annwen Daniels
Rheinallt Puw
Catrin Wager

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams
Beth Lawton
Angela Russell

Richard Medwyn Hughes
Dewi Wyn Roberts

Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Anwen J. Davies

Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd
Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd
Sedd Wag - Aelod Unigol

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw faterion sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

4. COFNODION

4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Medi, 2018 fel rhai cywir (ynghlwm).

5. STRATEGAETH DIGARTREFEDD

10 - 32

Aelod Cabinet – Y Cyngorydd Craig ab Iago

I dderbyn adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

6. RECRIWTIO A CHADW STAFF GOFAL CARTREF YNG NGWYNEDD - POBL HYN

33 - 36

Aelod Cabinet – Y Cyngorydd W.Gareth Roberts

I dderbyn adroddiad ar yr uchod (ynghlwm).

PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 13.09.18

Yn bresennol: Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dewi Wyn Roberts (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: R.Medwyn Hughes, Elin Walker Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Owen a Catrin Wager.

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Annwen Daniels, Anwen Davies, Rheinallt Puw ac Angela Russell. Hefyd y Cynghorydd W.Gareth Roberts (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant).

Swyddogion yn bresennol: Gareth James (Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

Yn bresennol ar gyfer eitem 5 isod:
Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Ceryl Davies (Uwch Reolwr Anghenion Dwys)

Yn bresennol ar gyfer eitem 6 isod:
Gwasanaethau Anabledd Dysgu
Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)
Ceryl Davies (Uwch Reolwr Anghenion Dwys)

Gwasanaethau Plant
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc)
Aled Gibbard (Uwch Reolwr Gweithredol – Adnoddau Gofal)
Iona Griffith (Rheolwr Gwasanaeth Plant a Theuluoedd)

Gwasanaeth Addysg
Y Cynghorydd Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg)
Einir Thomas (Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad)

Sylwedydd: Sharon Eastlake, Arolygiaeth Gofal Cymru

Dymunodd y Cadeirydd yn dda i Glynda O'Brien, cyn Swyddog Cefnogi Aelodau ar ei ymdeoliad diweddar yn dilyn 40 mlynedd o wasanaeth i gyn-Gyngor Dosbarth Meirionnydd a'r Cyngor hwn. Cytunwyd i anfon cerdyn ati, ar ran holl aelodau'r pwyllgor, yn diolch yn benodol iddi am ei gwasanaeth ffyddlon i'r pwyllgor hwn, a'i ragflaenydd, y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau, dros y blynyddoedd.

Dymunwyd yn dda hefyd i Iona Griffith, Rheolwr Gwasanaeth Plant a Theuluoedd, fyddai'n ymdeol ddiwedd y mis hwn yn dilyn 40 mlynedd o wasanaeth mewn llywodraeth leol.

Croesawyd y Cynghorydd Catrin Wager i'w chyfarfod cyntaf o'r pwyllgor hwn, a hefyd Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1 DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Elin Walker Jones fuddiant personol yn Eitem 6 – Awtistiaeth – Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Addysg – oherwydd:-

- Ei bod yn gweithio i'r tîm cyfatebol i Derwen yn y canol i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Bod ei merch yn gweithio fel Dadansoddwraig Ymddygiad yn Ysgol Pendalar.

Nid oedd o'r farn eu bod yn fuddiannau sy'n rhagfarnu, ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

2. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r 7 Mehefin, 2018 fel rhai cywir.

4. DIWEDDARIAD – GWASANAETHAU ANABLEDD DYSGU

Cyflwynwyd – adroddiad yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant yn diweddarar aelodau ar gynllun gweithredu arolygiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir gan y Gwasanaeth Anabledd Dysgu.

Ymhelaethodd y Pennaeth a'r Uwch Reolwr ar gynnwys yr adroddiad, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau. Codwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Gan mai'r Tîm Cefnogaeth Weithredol a PBS yw'r tîm cyntaf o'i fath yng Nghymru, nodwyd y byddai'n fuddiol i'r pwyllgor dderbyn adroddiad, unwaith y bydd y gwaith o gasglu'r data wedi'i gwblhau ym Mawrth 2019, yn amlinellu'r hyn a ddysgwyd o'r model yma, y deilliannau a sut y bwriedir ei ddatblygu i'r dyfodol gyda siroedd eraill.
- Croesawyd cydweithio agos a phositif y gwasanaeth gyda'r Bwrdd Iechyd.
- Nodwyd, o ran y gwendidau, bod angen gwella a miniogi'r berthynas gyda'r gwasanaethau therapi galwedigaethol arbenigol o safbwynt cyfarch anghenion oedolion gydag anableddau dysgu, sy'n fwy cymhleth a heriol. Hefyd, byddai angen edrych ar gael swyddogion gwybodaeth a chyingor yn rhan o'r Tim Ataliol newydd, fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2019.
- Nodwyd bod y gwasanaeth yn cyfarch yr her ariannol drwy gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys cydweithio gyda darparwyr allanol i edrych ar bob cyfle i gyflwyno ceisiadau am grantiau, canfod gorddarpariaeth, adolygu pob achos mae'r gwasanaeth yn ei gefnogi ac edrych ar leoliadau all-sirol.
- Croesawyd gweledigaeth y gwasanaeth a'r gwaith datblygol sy'n digwydd gyda Dr. Sandy Toogood o Brifysgol Bangor.
- Mewn ymateb i ymholiad ynglŷn â faint o geisiadau am gymorth a chefnogaeth sy'n cael eu gwrthod a pham, eglurwyd, yn wahanol i'r drefn hanesyddol lle 'roedd pobl yn cael eu gwrthod oherwydd nad oeddent yn ffitio i mewn i gategori penodol, bod yr anghenion yn cael eu diwallu mewn ffyrdd gwahanol erbyn hyn. Nodwyd y gellid edrych yn fwy manwl ar y ffigurau, i weld oes yna ffigurau ynglŷn â phobl sy'n cael eu gwrthod, ond credid, petai yna anghenion, y byddai'r anghenion hynny yn cael eu cyfarch, naill ai gan y Gwasanaeth Anabledd Dysgu, neu'r Gwasanaeth Oedolion. Ychwanegwyd bod trafodaethau ar y gweill ynglŷn â chryfhau'r trefniadau o ran yr oedolion hynny lle mae elfen o risg, ond nad ydynt, o angenrheidrwydd, yn mynd i fod angen cefnogaeth arbenigol. Nodwyd ymhellach, wrth edrych ar y data sydd gan y gwasanaeth, o bosib' y gellid canfod gwybodaeth

sy'n ateb y cwestiynau a godwyd gan yr aelod ac y gellid parhau'r drafodaeth gyda hi.

- Diolchwyd i'r aelodau staff hynny sy'n gweithio yn eu hamser eu hunain yn cynorthwyo gyda'r grwpiau a'r cyfleoedd cymdeithasol fin nos, yn bennaf yn y grwpiau coginio. Fodd bynnag, cwestiynwyd pam bod hynny'n digwydd yn y lle cyntaf a holwyd onid oedd yna rôl i'r trydydd sector fod yn cynorthwyo gyda'r math yma o weithgareddau.
- Nodwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi edrych ar yr ôl-groniad o asesiadau DoLS, ac wedi rhoi neges glir i'r adran ynglŷn â'r angen i sicrhau ymdrin ag achosion yn amserol. Hefyd, deellid bod rhai gweithwyr cymdeithasol eisoes yn meddu ar y cymhwyster asesu DoLS cyn yr hyfforddiant diweddar a holwyd a oedd yr unigolion hynny yn cynnal asesiadau. Mewn ymateb, nodwyd bod yr adran yn ceisio sicrhau bod yr adnoddau yn mynd i mewn i ddelio gyda'r asesiadau, yn enwedig i roi blaenoriaeth i'r rhai sy'n achosion brys, ond bod hwn yn parhau i fod yn faes sy'n hynod heriol yng Ngwynedd, fel mwy neu lai bob un awdurdod lleol arall. Bellach 'roedd tua 30 o swyddogion yn medru gwneud yr asesiadau, yn cynnwys y rhai oedd wedi'u hyfforddi ers peth amser. O ystyried y cwestiynu yn y pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu oherwydd y risgiau sy'n codi, cytunodd y pennaeth i ddod â gwybodaeth yn ôl i'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd o ran y cynnydd yn y maes yma.
- Gofynnwyd i'r adran rannu gwybodaeth gyda'r pwyllgor ynglŷn â'r Grŵp Trawsffurfio amlddisgyblaethol.
- Croesawyd y gwaith sydd wedi digwydd dros y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf i geisio cyfarch argymhellion yr arolygiad o'r gwasanaeth. 'Roedd y pwyllgor yn argyhoeddedig bod y gwasanaeth yn symud i'r cyfeiriad cywir, ond yn cydnabod, ar yr un pryd, bod yna lawer o waith i'w wneud eto.

5. AWTISTIAETH

Cyflwynwyd - adroddiadau'r Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, yr Aelod Cabinet Plant a Theuluoedd a'r Aelod Cabinet Addysg yn manylu ar y gwasanaethau cyfredol ym maes Awtistiaeth a'r cynlluniau i'w datblygu dros y blynyddoedd nesaf.

Gan fod y gwaith yn digwydd ar draws nifer o wasanaethau ac yn cael eu cynllunio a'u cynnal gan 3 o adrannau'r Cyngor, cyflwynwyd adroddiadau ar wahân gan y 3 adran.

Ymhelaethodd yr Aelodau Cabinet a'r swyddogion ar gynnwys yr adroddiadau, gan hefyd ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr aelodau.

(A) Gwasanaethau Anableddau Dysgu

Codwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Mynegwyd pryder nad oedd anghenion oedolion sydd ag awtistiaeth, ond heb anableddau dysgu, yn cael eu cyfarch a bod awtistiaeth yn cael ei drafod o dan y gwasanaethau anabledd dysgu. Nid oedd gan y mwyafrif o bobl sydd ag awtistiaeth anableddau dysgu ac 'roedd symudiad bellach i edrych ar awtistiaeth fel cyflwr yn hytrach nag anabledd. Hefyd, 'roedd gan bawb gyfraniad i'w wneud, ac 'roedd yn bwysig hybu sgiliau pob unigolyn. Yn wyneb y ffaith bod y Bil Awtistiaeth yn mynd drwy Senedd Cymru ar hyn o bryd, byddai'n rhaid i'r Cyngor gymryd anghenion pobl ag awtistiaeth o ddifri' ac mewn ffordd wahanol i'r ffordd y gwnaethpwyd hynny hyd yma. Mewn ymateb, nodwyd bod y Gwasanaeth Anabledd Dysgu yn cymryd yr anghenion hyn o ddifri'. Cadarnhawyd nad oedd awtistiaeth yn wasanaeth

ar wahân o fewn yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant ar hyn o bryd ond y credid ei fod wedi ei leoli lle mae'r arbenigedd i ddelio gydag achosion eithaf cymhleth yn bodoli o fewn yr adran ar hyn o bryd a bod y rôl o gydlynu ar draws yr adran a'r cyswllt hefo adrannau eraill yn digwydd yn y fan honno.

- Nodwyd bod yna ddiffyg cefnogaeth ar gyfer pobl sydd â chyflyrau llai dwys a llai hirdymor a phwysleisiwyd pwysigrwydd cefnogi oedolion cyn iddynt fynd yn ynysig neu i sefyllfa lle mae angen cymorth proffesiynol a meddyginiaeth arnynt. Nodwyd hefyd bod ymyrraeth gynnar yn arbed arian yn y pen draw a chyfeiriwyd yn ogystal at ddiffyg arbenigwyr iechyd meddwl yn y Gwasanaeth Iechyd.
- Mynegwyd y farn y dylai'r Cyngor gyflogi swyddog awtistiaeth fyddai'n bwynt cyswllt i deuluoedd ac yn gallu cydweithio gyda'r trydydd sector. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys gwybodaeth ar y wefan ynglŷn â pha adnoddau, grwpiau sydd ar gael. Mewn ymateb, nodwyd y penodwyd gweithiwr cefnogol drwy'r Prosiect IAS fydd yn gweithio yng Ngwynedd. Hefyd, fel y byddai'r gofynion yn newid a mwy o ddata yn dod trwodd ynglŷn â'r hyn sydd angen i'r Cyngor ei wneud, byddai'r adran yn parhau i ystyried beth yn union sydd angen ei ddarparu. Gallai hynny, yn y pen draw, arwain at yr angen am swyddog cydlynu neu debyg, ond nid oedd y Cyngor wedi cyrraedd y pwynt hynny eto.

(B) Gwasanaeth Plant

Manteisiodd yr Aelod Cabinet ar y cyfle i ddiolch i'r Cynghorwyr Beth Lawton ac Angela Russell am eu cyfraniad i'r cyfarfodydd herio perfformiad ac i'r Cadeirydd am ei ran yn yr adroddiad ar yr archwiliad diweddar o'r gwasanaeth.

Codwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Nodwyd mai un o'r diffygion ar hyn o bryd oedd bod diffyg adnoddau yn golygu nad oedd cysondeb ar draws Gogledd Cymru i ffurf y gwasanaeth Niwroddatblygiadol a sefydlwyd ar gyfer plant ag awtistiaeth ar draws Cymru a bod y rhestrau aros yn hirach. Trosglwyddwyd rhywfaint o adnoddau o'r gwasanaethau ar gyfer plant anabl i'r gwasanaeth newydd oedd yn cael effaith ar Derwen, ac 'roedd unrhyw ymyrraeth yn ddibynnol ar gyllid grant byr dymor. Diffyg arall oedd mai staff gwasanaeth iechyd yn unig oedd wedi eu cyflogi / secondio i'r gwasanaeth Niwroddatblygiadol ac mai ychydig iawn o amser oedd gan Addysg i gyfrannu i'r drefn. Nid oedd gweithiwr cymdeithasol yn rhan o'r gwasanaeth, a olygai nad oedd teuluoedd yn cael asesiad gofaluwr a gwasanaethau cefnogol, ayb, ac 'roedd yna grŵp o blant a phobl ifanc ag awtistiaeth nad oeddent yn cael llawer o wasanaeth oddi allan i'r diagnosis. 'Roedd diffyg hefyd o ran yr adnoddau yn amser seicolegwyr clinigol o fewn y gwasanaethau, gyda'r amser aros yn fwy na blwyddyn mewn rhai rhannau ar draws Gogledd Cymru. Hefyd, 'roedd yna ddiffyg amlwg o ran adnoddau i ddatblygu adnoddau egwyl fer ymhellach gan fod y gwasanaeth eisoes wedi derbyn lleihad yn eu cyllid drwy'r broses Her Gwynedd.
- Nodwyd na allai'r Cyngor fforddio torri mwy o wasanaethau ar gyfer plant a'u teuluoedd oherwydd bod y problemau'n hir dymor a dyma'r garfan fwyaf bregus yn ein cymdeithas.
- Pwysleisiwyd bod swydd y Rheolwr Gwasanaeth Plant a Theuluoedd yn swydd allweddol o fewn y gwasanaeth, ac er sicrhau dilyniant, erfyniwyd am gadw'r swydd ar ôl i Iona Griffiths, y deilydd presennol, ymddeol ddiwedd y mis.

- Llongyfarchwyd a diolchwyd i staff Derwen am eu gwaith gwych.

(C) Gwasanaeth Addysg

Codwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

- Holwyd a oedd lle i godi ymwybyddiaeth ysgolion o awtistiaeth fel y gellid ymyrryd yn yr ysgolion eu hunain lle mae plant yn isel ar y sbectrwm. Mewn ymateb, nodwyd bod rhaglen hyfforddiant yn cael ei datblygu ar gyfer yr ysgolion a'i fod yn rhan o'r strategaeth newydd ynglŷn ag anghenion ychwanegol a chynhwysiad.
- Holwyd beth fyddai dyfodol y Ganolfan Awtistiaeth ar safle Ysgol Coed Mawr yn sgil cau'r ysgol honno fel rhan o'r cynllun i foderneiddio addysg yn ardal Bangor. Mewn ymateb, eglurwyd y gobeithid dod o hyd i leoliad arall ar gyfer y ganolfan o fewn adeilad ysgol arall ym Mangor. Gan na ellid cadarnhau'r sefyllfa'n bendant ar y funud, cytunodd yr Aelod Cabinet i godi'r mater a dod â'r ateb yn ôl i aelodau lleol ardal Bangor. Mynegwyd pryder nad oedd yr aelodau'n gwybod am yr uned yng Nghoed Mawr ac felly na fu'n bosib' iddynt ystyried ei phwysigrwydd wrth ystyried y cynllun ar gyfer ysgolion ardal Bangor.
- Canmolwyd y weledigaeth o roi'r plentyn yn ganolog, ond holwyd sut oedd modd cysoni hynny ar draws yr ysgolion fel bod pob plentyn yn cael yr un cyfle. Mynegwyd pryder bod sawl teulu sy'n mynd drwy'r broses yn sôn am brofiad tra gwahanol - rhai'n methu cael mynediad i'r gwasanaeth oherwydd nad oedd yr ysgol yn derbyn bod problem ac eraill ar restr aros a ddim yn cael cefnogaeth oherwydd nad oeddent wedi cael y diagnosis. Mewn ymateb, nodwyd bod dyletswydd ar y cydlynedd a'r pennaeth i adnabod y plant gyda chymorth y seicolegydd addysg a gweithio drwy'r broses honno. Roedd yna broses o raddoli ac o adnabod yn yr uwchradd hefyd yn ogystal â rhaglen hyfforddiant benodol a chynhwysfawr. O ran cysoni a monitro, roedd y gwasanaeth wedi creu rhaglen fonitro fyddai'n ffordd o rannu ymarfer da ac roedd 4 swyddog ansawdd yn gyfrifol am gysoni ansawdd y gwasanaeth mae'r adran a'r ysgolion yn ei roi i'r disgyblion.
- Holwyd sut roedd llwyddiant yn cael ei fesur. Mewn ymateb, nodwyd y defnyddid Estyn o ran monitro'r ysgolion o ran y darpariaethau a bod cynnydd y disgyblion eu hunain yn cael ei fesur yn erbyn y Therapeutic Outcomes Measurement, sy'n edrych ar sgiliau meddal, ac yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Rheoli.
- Holwyd a fyddai modd trefnu hyfforddiant i rieni drwy Skype. Mewn ymateb, nodwyd, er y gellid trefnu hyfforddiant cyffredinol drwy Skype, bod y math o hyfforddiant a ddarperir i rieni yn fwy dwys na hynny fel rheol ac na fyddai'n addas i'w wneud drwy Skype.
- Nodwyd bod y diffyg dilyn i fyny a chefnogaeth i rieni ar ôl y diagnosis yn disgyn ar y seicolegwyr ysgol a'r athrawon arbennig a bod angen gofyn i'r Bwrdd lechyd lle mae'r gefnogaeth i rieni. O safbwynt y plentyn, nodwyd mai holl sail y strategaeth newydd oedd bod y Gwasanaeth Addysg yn ymyrryd yn gynnar drwy edrych ar anghenion y plentyn, yn hytrach na'r cyflwr, ac yn paratoi cynllun datblygu unigol sy'n cyfarch anghenion y plentyn, ac nid y diagnosis. Mewn ymateb i sylw nad oedd hynny'n digwydd ymhob achos ar lawr gwlad, eglurwyd bod hon yn strategaeth newydd iawn ac arloesol. Roedd yn mynd i gymryd amser i gysoni'r gwasanaeth ar draws y sir gyfan, ond dyna oedd nod y gwasanaeth.
- Gofynnwyd am adroddiad mwy cynhwysfawr i'r pwyllgor yn manylu ar niferoedd y plant sy'n derbyn addysg yn all-sirol, faint o blant sydd ddim yn

mynychu ysgol ac sydd ag awtistiaeth / heb awtistiaeth ynghyd â gwybodaeth am yr ysgolion arbennig.

- Holwyd a oedd yna restr aros i weld seicolegydd addysg. Mewn ymateb, nodwyd, er bod rhaid gweld seicolegydd clinigol i gael y diagnosis, nad oedd rhaid gweld seicolegydd addysg i gael y ddarpariaeth o dan y drefn newydd. 'Roedd yr ysgolion yn hoffi'r drefn newydd gan ei bod yn haws iddynt godi materion o ran eu hysgol eu hunain, ond 'roedd rhieni wedi arfer gyda'r hen drefn o gael gweld seicolegydd addysg ac nid oeddent bob amser yn deall bod addysg yn wahanol i iechyd. Nodwyd hefyd bod gan y Cyngor dîm cyflawn ac eithaf ifanc o seicolegwyr addysg oedd yn gallu cynnal asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd bod yna gydweithio da yn y maes awtistiaeth rhwng y 3 adran. Roedd camau breision ar droed o ran y cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd hefyd, gyda'r prosiect Alltwn yn gatalydd i hynny gyda llawer o drafod ac edrych ar y problemau o ochr y defnyddiwr.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 1.10yp.

CADEIRYDD

Eitem 5

TEITL	Strategaeth Digartrefedd.
PWRPAS	Ymateb i ganfyddiadau y Strategaeth a'r Cynllun Gwaith Lleol
AWDUR	Arwel Wyn Owen
AELOD CABINET	Cyng Craig ab Iago
DYDDIAD	15fed o Dachwedd 2018

1.0 Cyd-destun

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal adolygiad strategol o ddigartrefedd yn eu hardal bob 5 mlynedd ac i ddatblygu a chyhoeddi strategaeth digartrefedd yn seiliedig ar y canfyddiadau. O dan y Ddeddf, mae'n rhaid i'r Strategaeth Ddigartrefedd geisio cyflawni'r amcanion canlynol yn ardal yr awdurdod tai lleol:

- a) Atal digartrefedd
- b) Sicrhau fod llety addas ar gael i bobl sy'n dod yn ddigartref neu a all fod yn ddigartref
- c) Trefnu bod cefnogaeth foddhaol ar gael i bobl sy'n dod yn ddigartref neu a all fod yn ddigartref.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnal yr Adolygiad Digartrefedd cyntaf yn unol â'r gofynion deddfwriaethol ac yn ymgynghori ar gamau gweithredu lleol i ddarparu ymateb strategol lleol i fynd i'r afael â digartrefedd ac ymateb i ddigartrefedd ledled Gwynedd. Mae copi o Grynnodeb Gweithredol y Strategaeth Ddigartref ynghlwm fel Atodiad 1.

Roedd Deddf Tai (Cymru) 2014 yn dynodi newid deddfwriaethol a diwylliannol yn ymateb y Cyngor i ddigartrefedd. Mae Gwasanaeth Tai Gwynedd wedi gosod atal digartrefedd wrth wraidd darparu gwasanaethau, gyda ffocws cryf ar ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth trwy ddatrys atebion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

2.0 Dyletswyddau Statudol

- 2.1 Mae Digartrefedd yn un o gyfrifoldebau statudol y Cyngor ac mae nifer o ddyletswyddau cyfreithiol y mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb iddynt. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 ddaeth i rym yn Ebrill 2015. wedi gosod nifer o gyfrifoldebau statudol ychwanegol ar y Cyngor, gan gynnwys:

- i) Dyletswydd i asesu anghenion lletya a chefnogaeth pawb sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd
 - ii) Dyletswydd i unrhyw un sy'n cael eu bygwth â digartrefedd o fewn 56 diwrnod i helpu atal digartrefedd
 - iii) Dyletswydd i roi cymorth i unrhyw berson digartref i helpu dod o hyd i gartref.
- 2.2 Yn ogystal mae dyletswydd i ddarparu llety dros dro i bobl sydd mewn blaenoriaeth angen os nad yw'n bosib ffeindio rhywle arall iddynt fyw yn parhau.
- 2.3 Nid oes rhaid profi blaenoriaeth angen i gael dyletswydd o dan 2.1 uchod, ac o ganlyniad mae fwy o bobl sengl yn cymhwyso i dderbyn cymorth lle nad oeddynt yn gymwys o dan yr hen ddeddfwriaeth.

3.0 Effaith Newid Ddeddfwriaethol ar y gwasanaeth

- 3.1 Mae newidiadau i'r Ddeddfwriaeth ddigartrefedd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y nifer o bobl sydd yn gofyn am gymorth.

Nifer cyfeiriadau i'r Gwasanaeth Digartrefedd	
2014/15	560
2015/16	648
2016/17	722
2017/18	760

Mae'r ystadegau uchod yn dangos cynnydd o 28.9% rhwng 2014/15 a 2016/17.

- 3.2 Golyga hefyd bod achosion yn gallu bod yn agored am gyfnod llawer hirach gan fod y dyletswydd i atal digartrefedd yn cychwyn o fewn 56 diwrnod i ddod yn ddigartref, ac wedi hynny, os nad yn gallu atal y digartrefedd, mae'r dyletswydd i ddod o hyd i eiddo arall yn parhau am 56 diwrnod pellach. Mae'r baich achosion yn drymach ar cyfnod ein cyfrifoldeb wedi ymestyn.
- 3.3 Mae'r baich gweinyddol hefyd wedi cynyddu oherwydd y gofyn statudol i roi hysbysiad ysgrifenedig i bob ymgeisydd o ba ddyletswydd sydd yn berthnasol i'w hachos a hysbysiad pan fo'r dyletswydd yn dod i ben neu yn trosglwyddo i ddyletswydd newydd.
- 3.4 Mae swyddogion yn gorfod treulio mwy o amser yn ceisio adnabod llety fforddiadwy yn y sector breifat ac mae hynny profi'n anodd oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys newidiadau yn y drefn budd-dal lles, graddfeydd rhent uchel, a phrinder llety un llofft.

- 3.5 Er bod y niferoedd sy'n cael mynediad i lety dros dro wedi lleihau, yn sgil gwaith atal digartrefedd llwyddiannus, mae'r rhai sydd yn mynd i lety dros dro yn gorfod aros yna am gyfnodau hirach tra yn disgwyl am eiddo addas parhaol.
- 3.6 Mae Uned Digartrefedd Gwynedd wedi perfformio yn dda ar y mesurau rydym yn adrodd i Llywodraeth Cymru ond gwelwn bod dirywiad yn y perfformiad ar y ddau fesur sy'n adlewyrchu'r pwysau diweddar ar y gwasanaeth.

4.0 Pwyslais ar Atal

- 4.1 Mae Cyngor Gwynedd ers nifer o flynyddoedd yn rhoi pwyslais ar geisio atal digartrefedd gan ei bod yn gwella profiad defnyddwyr ac yn arwain at fwy o sefydlogrwydd i ddefnyddwyr a theuluoedd gan fod modd cynnal rhwydweithiau a gweithredu mewn ffordd mwy cost effeithiol. Mae'r Ddeddf Tai yn atgyfnerthu'r angen i ganolbwyntio ar atal digartrefedd fodd bynnag mae nifer o ffactorau yn effeithio ein gallu i sicrhau canlyniadau positif ar gyfer cleientiaid bregus.

4.2 Adnabod llety addas ar gyfer pobl digartref

Mae heriau sylweddol o ran canfod eiddo ar gyfer rhai grwpiau penodol, sef pobl sengl a phobl gydag anghenion cymhleth, e.e. pobl hefo problemau iechyd meddwl dwys, pobl yn gadael carchar, pobl hefo problemau cam ddefnyddio alcohol a chyffuriau. Mae nifer cynyddol o bobl hefo anghenion uchel yn cael eu rhyddhau i'r gymuned heb adnoddau llety a chefnogaeth. Yn ogystal mae diffyg cyffredinol mewn eiddo un llofft ac eiddo gyda chefnogaeth.

4.3 Newid yn y Drefn Budd-dal

Mae her ychwanegol yn deillio o ddiwygio'r drefn budd-daliadau sy'n cael effaith ar grwpiau penodol ac yn gosod baich ar y gwasanaeth. Mae nifer uchel o bobl yn derbyn budd-dal tai sy'n is na chost rhent preifat a chymdeithasol gan olygu bod rhaid adnabod arian ychwanegol i dalu costau llety sydd yn rhoi pwysau o ran cynaliadwyedd tenantiaethau ac yn arwain at faich ychwanegol ar wasanaethau digartrefedd.

- 4.4 Mae'r gwasanaeth wedi gweld cynnydd yn y nifer o bobl sydd yn gofyn am gymorth oherwydd fforddiadwyedd eu tenantiaethau yn sgil newid budd-dal. Mae Credyd Cynhwysol yn effeithio a'r bobl sengl sydd wedi cyflwyno cais newydd. Rhagwelir mwy o gyflwyniadau pan fydd credyd cynhwysol yn cael ei ymestyn i bawb sy'n derbyn budd-dal.

- 4.5 Rydym hefyd yn gweld effaith cyflwyno'r uchafswm budd-dal (cap) ar deuluoedd mawr gyda nifer o blant.

5.0 Ymagwedd Ranbarthol at Atal Digartrefedd

Yn ogystal ag ymgymryd ag adolygiad lleol, mae Awdurdodau Lleol yng Ogledd

Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â digartrefedd ar y cyd ar draws y rhanbarth, ac wedi llunio Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol, sy'n cefnogi'r chwe chynllun gweithredu lleol. Mae'r Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol yn ceisio:

- Creu agwedd ranbarthol at fynd i'r afael â digartrefedd yng Ngogledd Cymru
- Rhannu ymarfer gorau ar draws y rhanbarth
- Datblygu gwasanaethau a chydweithredu lle bo modd
- Datblygu gwell dealltwriaeth o achosion digartrefedd trwy gasglu data ar draws y rhanbarth
- Lleihau digartrefedd yng Ngogledd Cymru

Mae'r Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol yn canolbwyntio ar dri thema Pobl, Cartrefi a Gwasanaethau.

Yr ymrwymiad craidd gan y chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru yw creu diwylliant o gydweithio gwell, o ran mynd i'r afael â'r materion penodol sy'n achosi digartrefedd.

6.0 Cynllun Gweithredu Lleol

Mae y Gwasanaeth Digartref yn y broses o ymgynghori ar gynllun gweithredu lleol ar gyfer 2018-22 fydd yn adeiladu ar y llwyddiannau a gyflawnwyd hyd yma gan Tîm Atebion Tai Gwynedd gan ganolbwyntio ar ddatblygu a gwella'r gwasanaethau a'r mentrau presennol ymhellach.

Mae'r Cynllun Gweithredu Lleol wedi ystyried canfyddiadau Strategaeth Digartrefedd Gwynedd, sy'n rhoi dadansoddiad o ddigartrefedd ledled Gwynedd ac yn nodi materion a bylchau o fewn y ddarpariaeth gwasanaeth. Mae'r cynllun gweithredu wedi'i adeiladu o amgylch blaenoriaethau Strategaeth Digartrefedd Gogledd Cymru, ac yn amlygu cyfleoedd ar gyfer cyd-weithio.

Mae'r Cynllun Gweithredu Lleol wedi'i lunio mewn ymgynghoriad ag asiantaethau partner. Mae'r Cyngor yn cydnabod na all yr Awdurdod Lleol fynd i'r afael â'r digartrefedd ar ei ben ei hun, ac ei bod yn hanfodol gweithio mewn partneriaeth effeithiol gyda sefydliadau eraill sy'n gweithio i atal digartrefedd.

Mae'r Cynllun Gweithredu Lleol yn canolbwyntio ar y themâu strategol canlynol.

Gwasanaethau

Darparu Gwasanaeth Atebion Tai effeithiol i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth.

Sicrhau bod ymyrraeth gynnar gadarn a gwasanaethau atal digartrefedd mewn lle.

Cartrefi

→ Lleihau'r defnydd o lety dros dro a Gwely a Brecwast.

→ Cynyddu mynediad at opsiynau tai a chymorth a pharhaol.

Pobl

→ Ymateb i anghenion cymhleth, lluosog ac amrywiol ein cleientiaid.

7.0 Llywodraethu

Bydd cyfnod y Strategaeth Digartref yn ymestyn rhwng 2018 i 2022 a bydd cynnydd yn cael ei fonitro a'i adolygu gan y Grwp Llywio Atal Digartrefedd, ochr yn ochr â systemau rheoli perfformiad mewnol y Cyngor. Bydd Fforwm Digartrefedd Gwynedd yn chwarae rhan allweddol wrth gynorthwyo gyda chyflenwi'r Cynllun Gweithredu Cyflenwi Lleol

8.0 CASGLIAD

8.1 Mae'r Strategaeth yn datgan bod y gwasanaeth digartrefedd yn wynebu sawl her a phwysau l yn sgil newidiadau deddfwriaethol a adolygiad o'r drefn budd-daliadau Mae'r gwasanaeth eisoes wedi gweld cynnydd mewn galw a'r rhagolwg yw y bydd yn parhau i dyfu. Mae'n hanfodol felly ystyried sut allwn ymateb er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaeth ac i sicrhau ein bod yn gallu rheoli gwariant i'r dyfodol.

Adolygiad Digartrefedd 2018

Crynodeb Gweithredol



Cyngor Gwynedd

Crynodeb Gweithredol

Medi 2018

Prif Gyswilt: Laura Paterson
E-bost: laura.paterson@arc4.co.uk
Rhif ffôn: 0800 612 9133
Gwefan: www.arc4.co.uk



© 2018 arc4 Limited (Company No. 06205180)

Paratowyd yr Adolygiad Digartrefedd hwn gan arc4 Ltd. ar ran Cyngor Gwynedd. Mae'r Adolygiad ei hun yn cynnig dadansoddiad manwl o lefelau a natur digartrefedd, awdit o'r gwasanaethau ac adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael i'w wario ar ddigartrefedd yn y sir.

Mae hefyd yn darparu sail dystiolaeth ar gyfer Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol Gogledd Cymru, ochr yn ochr â Chynllun Gweithredu Darpariaeth Leol Digartrefedd Gwynedd.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfarwyddiadau a gofynion penodol ein cleient. Nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw drydydd parti, ni ddylent ddibynnu arno ac ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti.

Nid yw arc4 Limited yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb neu atebolrwydd am, ac yn gwneud dim cynrychiolaeth neu warant ynghylch cywirdeb neu gyflawnrwydd unrhyw wybodaeth trydydd parti (gan gynnwys data) a gynhwysir yn y ddogfen hon.

Cyfeiriad Cofrestredig: arc4, 41 Clarendon Road, Sale Manchester M33 2DY

E-bost: contact@arc4.co.uk www.arc4.co.uk

arc4 Limited Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr 6205180 Rhif Cofrestru TAW: 909 9814 77

Cyfarwyddwyr - Helen Brzozowski – Michael Bullock

10 Prif Ganfyddiad

- Mae galw cynyddol ar y gwasanaeth Datrysiadau Tai yn dilyn gweithrediad Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae nifer cynyddol o bobl yn ddigartref neu yn cael eu bygwth â digartrefedd yng Ngwynedd. Mae tystiolaeth trwy gydol yr Adolygiad yn awgrymu y bydd y cynnydd hwn yn parhau.
- Mae cyfran uchel iawn o bobl sengl yn ddigartref neu yn cael eu bygwth â digartrefedd. Bydd angen datblygu dewisiadau tai a datrysiadau atal penodol er mwyn cyfarch anghenion pobl sengl. Pobl sengl sydd yn aml ag anghenion niferus a chymhleth.
- Mae'r gwasanaeth Datrysiadau Tai o dan cryn bwysau, sy'n cynyddu ymhellach yn sgil ardal ddaearyddol fawr iawn y Sir, a'r modd gwasgaredig y darperir y gwasanaeth. Mae angen buddsoddi mewn adnoddau staffio ychwanegol, ynghyd ag adolygu systemau a phrosesau.
- Mae niferoedd uchel o bobl mewn llety dros dro, a defnydd uchel o lety Gwely a Brecwast. Mae angen gwneud gwaith pellach i lwyr ddeall yn well anghenion llety dros dro, a sut yr eid i'r afael â hyn orau, gan gynnwys y galw amcanol i'r dyfodol, drwy ddatblygu cynllun llety dros dro.
- Mae galw uchel am dai cymdeithasol, ac nid yw darpariaeth y stoc tai cymdeithasol yn cyd-fynd â'r galw am y llety hwn. Mae hyn yn arbennig o wir am lety dwy ystafell wely, gyda'r galw yn gorbwyso'r cyflenwad yn sylweddol.
- Mae'r gwasanaeth Datrysiadau Tai wedi cael llwyddiant arwyddocaol drwy rwystro digartrefedd, gyda chanran y bobl lle rhwystrwyd neu gynorthwywyd eu digartrefedd yng Ngwynedd yr uchaf ledled Gogledd Cymru, ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd lefel y llwyddiant yma yn gynaliadwy yn sgil pwysau ar y gwasanaeth, fel y nodwyd uchod.
- Yr arfau atal mwyaf llwyddiannus a ddefnyddir yw helpu pobl i symud i dai cymdeithasol a llety rhent preifat. Mae angen gwneud mwy o waith i gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu rhwystro rhag colli eu llety presennol.
- Dyma brif achosion digartrefedd yng Ngwynedd:
 - Colli llety rhent neu glwm
 - Gadael carchar
 - Rhieni a pherthnasau yn amharod i letya mwyach
 - Perthynas yn chwalu
 - Cam-drin Domestig
- Mae galw cynyddol am wasanaethau Cefnogi Pobl a ariennir, byddai asesiad anghenion ffurfiol yn cynnig dealltwriaeth gynhwysfawr o'r angen a'r galw am gefnogaeth yn ymwneud â thai ar draws y Sir, a fyddai wedyn yn hysbysu strategaeth gomisiynu gadarn.
- Mae'n mynd yn gynyddol anoddach i gwsmeriaid Datrysiadau Tai gael mynediad i lety rhent preifat; mae hyn yn rhannol oherwydd fforddiadwyedd, marchnad gystadleuol, ac amharodrwydd gan landlordiaid i dderbyn tenantiaid sy'n derbyn budd-daliadau, yn arbennig mewn perthynas â phryderon yn ymwneud â Thaliadau Uniongyrchol. Bydd yr heriau hyn yn cynyddu ymhellach gyda dyfodiad datblygiad Wylfa, a fydd yn creu galw ychwanegol am lety rhent preifat yn yr ardal.

1. Cefndir

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gofyn i bob awdurdod lleol gynnal adolygiad o ddigartrefedd bob pedair blynedd, i ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth Ddigartrefedd ar sail yr adolygiad hwn ac i ymgynghori â sefydliadau statudol a gwirfoddol lleol eraill.

Bydd yr adolygiad hwn yn darparu sail ar gyfer dull strategol i fynd i'r afael â digartrefedd a'i rwystro, a bydd yn gymorth i adeiladu ar y gwaith cadarnhaol sydd yn digwydd yn barod yng Ngwynedd i ddarparu unigolion sydd angen llety ag amrywiaeth o ddewisiadau tai i atal a lleihau digartrefedd ar draws y sir.

Mae'r Crynodeb Gweithredol hwn yn rhoi amlinelliad o brif ganfyddiadau'r adolygiad, dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol, a'r camau nesaf o ran ymatebion strategol.

Methodoleg

Mae gofyn i'r adolygiad digartrefedd gynnwys:

- Dadansoddiad o lefelau digartrefedd y gorffennol, y presennol a'r dyfodol
- Awdit o'r gwasanaethau a anelir at atal, lletya a chefnogi pobl sydd yn neu a allai ddod yn ddigartref
- Adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael i wario ar ddigartrefedd o fewn y Sir

Defnyddiodd y broses adolygu amrediad eang o ffynonellau, gan gynnwys ystadegau digartrefedd, data cefnogi pobl, data cyngor ar dai a chyfres o ymarferion ymgynghori.

Mae nifer o faterion cymhleth a allai arwain at ddigartrefedd, a nifer ohonynt y tu allan i sgôp yr Awdurdod Lleol. Felly, wrth roi'r adolygiad hwn at ei gilydd, mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos ag amryw asiantaethau statudol a gwirfoddol eraill.

Dylid ystyried yr adolygiad hwn fel un aml-asiantaethol sy'n cydnabod bod gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i atal digartrefedd a datblygu tai cynaliadwy tymor-hir a datrysiadau cefnogi.

Mae ymgynghori wedi bod yn ganolog i ddatblygiad yr Adolygiad Digartrefedd a bydd yn parhau i fod yn elfen bwysig wrth ddatblygu Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol a chynllun darpariaeth leol Gwynedd.


Cynhaliwyd ymgynghoriad drwy amryw o wahanol ddulliau gyda chwsmeriaid, asiantaethau partner a staff y Cyngor.

Roedd hyn yn cynnwys grwpiau ffocws, cyfweiliadau â budd-ddeiliaid, holiaduron ac arolygon ar-lein gyda chwsmeriaid.

Digartrefedd mewn Ffigyrau

Ceisiadau am Wasanaeth

Ers cyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014, mae'r galw ar Wasanaeth Datrysiaidau Tai Gwynedd wedi cynyddu. Roedd cynnydd o 36% mewn pobl yn cael mynediad i'r gwasanaeth yn 2017/18 o gymharu â 2014/15 (o dan y ddeddfwriaeth flaenorol). Mae'r cynnydd hwn yn y galw yn adlewyrchu cynnydd mewn digartrefedd ar draws Gogledd Cymru.



Ffig 1: Ffynhonnell: Cronfa ddata Datrysiaidau Tai

Mae'r gwasanaeth yn darparu apwyntiadau a sesiynau galw i mewn o bedwar lleoliad ar draws y Sir. Yn 2016/17, roedd rhaniad gymharol gytbwys rhwng y galw yng Ngogledd Cymru (387) a De Cymru (335); fodd bynnag, yn 2017/18, cynyddodd y galw yn sylweddol yng Ngogledd Cymru (481), gan leihau fymryn yn y De (279).

Asesiadau

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r deilliannau a gofnodwyd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

Deilliannau	2015/ 16 Cyfans wm	2015/16 sy'n sengl	2016/ 17 Cyfans wm	2016/17 sy'n sengl	2017/1 8 Cyfans wm	2017/18 sy'n sengl
Cyfanswm y ceisiadau am gymorth a arweiniodd at asesiad A62	-	-	622	397	629	377
Anghymwys	0	0	3	2	1	1
Cymwys ond ddim yn ddigartref nac o dan fygythiad o fod yn ddigartref	11	4	19	14	24	14
Dan fygythiad o fod yn ddigartref; darparwyd cymorth atal (A66)	162	85	209	100	157	82
Digartref, yn ddarostyngedig i ddyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety (A73)	150	63	206	122	318	234
Cymwys, digartref ond nid yn flaenoriaeth	8	0	2	2	12	12
Cymwys, digartref ac yn flaenoriaeth ond yn fwriadol	3	2	0	0	0	0
Cymwys, digartref yn anfwriadol ac yn flaenoriaeth (A75)	17	5	35	12	45	21

Cyfanswm y deilliannau	351	159	474	252	557	364
Cyfanswm yr ataliwyd/cynorthwywyd	249	131	322	153	352	217

Yn 2017/18, roedd cyfanswm o 629 cais am gymorth a arweiniodd at asesiad A62 (lle'r oedd rheswm i gredu bod y person yn ddigartref neu o dan fygythiad o fod yn ddigartref), daeth 60% o'r ceisiadau hyn gan bobl sengl.

Mae cyfran uchel iawn o bobl sengl yn ddigartref neu yn cael eu bygwth â digartrefedd ar draws Gwynedd.

Yn dilyn yr asesiad yn 2017/18, cafodd cyfanswm o 157 o bobl, gyda 52% o'r rheini yn bobl sengl, eu hasesu fel bod o dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod, ac roedd dyletswydd atal yn ddyledus iddynt o dan A66. 25% o asesiadau yn unig a arweiniodd at ddyletswydd atal (dyletswydd A66) yn bod yn ddyledus - awgryma hyn bod nifer o gwsmeriaid yn cysylltu â'r gwasanaeth unwaith iddynt ddod yn ddigartref; golyga hyn bod cyfleoedd am ymyrraeth gynnar ac atal effeithiol yn cael eu colli.

Yn 2017/18, cafodd 318 o bobl, gyda 74% o'r rheini yn bobl sengl, eu hasesu fel bod yn ddigartref, ac roedd dyletswydd cynorthwyo gyda'u digartrefedd yn ddyledus iddynt o dan A73 (dyletswydd i'w cynorthwyo i ddod o hyd i lety amgen). Mae dyletswydd i gynorthwyo yn ddyledus i gyfran uchel iawn o bobl sengl (dyletswydd A73). Er nad yw'r rhesymau am hyn yn eglur, mae posibilrwydd bod y gwasanaeth yn ei chael yn anodd atal pobl sengl rhag dod yn ddigartref oherwydd diffyg dewisiadau sydd ar gael, felly mae'n bosib bod pobl sengl yn symud ymlaen i A73. Mae posibilrwydd hefyd nad yw pobl sengl yn cysylltu â'r gwasanaeth am gymorth hyd nes eu bod yn ddigartref. Mae hyn hefyd yn wir am nifer o Awdurdodau eraill ar draws Gogledd Cymru.

Yn 2017/18, canfuwyd bod 45 person yn gymwys, gyda 47% o'r rhain yn bobl sengl, yn ddigartref yn anfwriadol ac yn flaenoriaeth, ac roedd dyletswydd i ddarparu llety o fewn y sector rhent preifat neu dai cymdeithasol yn ddyledus iddynt (dyletswydd A75).

Achosion Digartrefedd

Prif achos digartrefedd yng Ngwynedd yw colli llety rhent preifat, a phobl sy'n gadael carchar yn dilyn hynny.

Mae'r prif achosion eraill yn cynnwys perthnasau yn torri i lawr, cam-drin domestig, a theulu/ffrindiau yn gofyn i'r person adael.

Mae'r rhain yn adlewyrchu prif achosion digartrefedd ar draws Gogledd Cymru. Er bod gadael carchar yn un o'r pum achos uchaf dros ddigartrefedd ar draws Gogledd Cymru, yn Wrecsam a Gwynedd, dyma oedd yr ail achos uchaf dros ddigartrefedd.

Atal a Chymorth

Yn 2017/18, o'r 157 person oedd â dyletswydd i'w hatal rhag dod yn ddigartref (A66) yn ddyledus iddynt, cafodd 114 person (73%) eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref. O'r rhain, cynorthwywyd 38 ohonynt i aros yn eu llety presennol, gan gyfrif am 33% o'r holl ddeilliannau atal dan A66.




Fig 3: Ffynhonnell: Cofnodion Llywodraeth Cymru

Yr arf atal mwyaf llwyddiannus a ddefnyddiwyd i alluogi pobl i aros yn eu llety presennol yn 2017/18 oedd taliadau ariannol (a allai gynnwys Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai, neu daliadau o'r gronfa atal digartrefedd i dalu am ddifrod neu ôl-ddyledion) a datrys problemau tai a budd-daliadau lles.




Fig 4: Ffynhonnell: Cofnodion Llywodraeth Cymru

Yn 2017/18, ataliwyd cyfanswm o 76 person rhag dod yn ddigartref o dan A66, drwy eu cynorthwyo i ddod o hyd i lety amgen, a chafodd 197 person arall gymorth gyda'u digartrefedd o dan A73.

Yr arf mwyaf llwyddiannus i alluogi pobl i sicrhau llety amgen oedd darparu cymorth i gael mynediad i dai cymdeithasol, ac roedd hyn yn wir am 100 o achosion. Cynorthwywyd 117 person arall i gael mynediad i'r sector rhentu preifat.

Yn 2017/18, cafodd 62% o'r rheini a oedd â dyletswydd cymorth yn ddyledus iddynt eu cynorthwyo'n llwyddiannus.


Roedd gan Wunedd y ganran uchaf o ddeilliannau atal llwyddiannus (Adran 66) a deilliannau cynorthwyo digartrefedd llwyddiannus (Adran 73) yng Ngogledd Cymru yn ystod 2016-17 ar 78% a 66%, ac yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Defnydd o Lety Dros Dro

Ar ddiwedd mis Mawrth 2016, roedd 77 person mewn llety dros dro; cynyddodd hyn i 93 ym mis Mawrth 2017.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2016, roedd 12 person mewn llety gwely a brecwast; cynyddodd y ffigur hwn i 21 ym mis Mawrth 2017.

Mae'r graff isod yn dangos nifer y bobl y rhoddwyd llety iddynt mewn llety dros dro (gan gynnwys Gwely a Brecwast) ar ddiwedd bob blwyddyn. Mae'r ffigur hwn yn giplun mewn amser, ac felly nid yw'n cynrychioli cyfanswm nifer y bobl a leolir mewn llety dros dro yn ystod y flwyddyn.




Ffig 5: Ffynhonnell: COFNODION LLYWODRAETH CYMRU

Cynyddodd y defnydd o lety dros dro yn sylweddol o 21% yn 2017/18. Ni chyfrifir am y cynnydd hwn gan gynydd cyffredinol yn y galw am y gwasanaeth, gan fod nifer y cleientiaid sy'n cysylltu â'r gwasanaeth yn parhau i fod yn gymharol sefydlog. Fodd bynnag, cysylltodd cyfran uwch o gleientiaid â'r tîm Datrysiaidau Tai pan oeddent yn ddigartref (A73) yn hytrach na phan oeddent dan fygythiad o ddod yn ddigartref (A66) yn 2017/18 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn 2017/18, lleolwyd cyfanswm o 365 o bobl mewn llety dros dro yn ystod y flwyddyn, sef cynnydd o 16% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd mwyaf mewn cleientiaid yn cael eu lleoli gan y swyddfa yn Arfon.

Mae'r graff isod yn dangos nifer y bobl y rhoddwyd llety iddynt mewn llety Gwely a Brecwast ar ddiwedd bob blwyddyn. Mae'r ffigwr hwn yn giplun mewn amser, ac felly nid yw'n cynrychioli cyfanswm nifer y bobl a leolir mewn llety Gwely a Brecwast yn ystod y flwyddyn.



Ffig 6: Ffynhonnell: COFNODION LLYWODRAETH CYMRU

Mae defnydd o lety Gwely a Brecwast wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf, gyda chynnydd o 75% yn ei ddefnydd rhwng 2016/17 a 2017/18.

Mae cynnydd yn y defnydd o lety dros dro a Gwely a Brecwast ar draws pob un o awdurdodau Gogledd Cymru.

Mae defnydd o lety Gwely a Brecwast yn cynyddu yng Ngwynedd; mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg llety dros dro mwy addas, a chynnydd yn nifer y bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar y pwynt pan maent eisoes yn ddigartref, ac mae mewnbyn isel yn yr unedau sydd ar gael oherwydd diffyg dewisiadau symud fforddiadwy.

Mynediad i Lety

Tai Cymdeithasol

Yn 2010, trosglwyddodd Cyngor Gwynedd ei stoc dai i Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG). Yng Ngwynedd, mae tai cymdeithasol yn cyfrif am 16% o gyfanswm y stoc dai. O'r stoc, mae 60% yn llety tair ystafell wely, a dim ond 8% o'r stoc sy'n llety un ystafell wely, mewn cyferbyniad â 40% o ymgeiswyr y Gofrestr Tai sy'n ceisio llety un ystafell wely.

Mae trosiant isel mewn Tai Cymdeithasol, gyda chyfartaledd blyneddol o 550 llety yn cael eu gosod; mae'r ffigwr hwn yn gostwng bob blwyddyn. Yn 2017/18, roedd 129 o'r llety hyn yn llety un ystafell wely i anghenion cyffredinol, a 217 ohonynt yn llety dwy ystafell wely.

Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2018, roedd ychydig llai na 2,000 o bobl ar y Gofrestr Tai. Mae'r galw mwyaf am lety dwy ystafell wely i anghenion cyffredinol, a ddilynir gan lety un ystafell wely.

Mae dadansoddiad o'r gofrestr tai lleol yn erbyn y Stoc Tai Cymdeithasol yn awgrymu nad yw'r stoc dai yn cyd-fynd â'r galw.

Roedd lefel y bobl a gafodd eu troi allan o dai gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar ei uchaf yn 2014/15, ac mae'n debygol bod hyn yn gysylltiedig â chyflwyniad y dreth ystafell wely. Ers hynny, mae nifer y bobl sy'n cael eu troi allan wedi gostwng ychydig, fodd bynnag mae'r ffigwr ar gyfer 2017/18 yn parhau i fod yn uwch na'r lefelau cyn 2014/15, ac yn gyfystyr â 0.4% o'r stoc dai. Ni fu modd cymharu hyn â'r Cymdeithasau Tai eraill sy'n gweithredu ar draws Gwynedd gan na chyflenwyd y wybodaeth hon ar gyfer yr Adolygiad Digartrefedd.

Llety â Chymorth

Mae galw uchel am lety â chymorth a gwasanaeth cefnogaeth yn ôl yr angen. Yn 2017/18, roedd cyfanswm o 1876 cyfeiriad i wasanaethau Cefnogi Pobl a ariennir; dyma gynnydd o 38% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn 2016/17, nid oedd cyfanswm o 66 unigolion mewn gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety yn gallu symud ymlaen oherwydd diffyg llety, a 225 pellach oedd â mynediad i wasanaethau cefnogaeth yn ôl yr angen.

Sector Rhentu Preifat

Yng Ngwynedd, mae'r sector rhentu preifat yn cyfrif am 15% o gyfanswm y stoc dai. O ystyried y cyfyngiadau ar faint a buddsoddiad y stoc rhentu cymdeithasol, mae'n elfen hanfodol o ddarpariaeth tai i bobl a fyddai'n ddigartref fel arall.

Nid yw'r sector rhentu preifat yng Ngwynedd yn farchnad arbennig o fforddiadwy, mae niferoedd isel o eiddo o fewn lefelau Lwfans Tai Lleol, gyda phobl sy'n derbyn Lwfans Tai Lleol yn aml yn gorfod dod o hyd i gyllid sylweddol i gyfaddawdu am y diffyg mewn rhent.

Llety a Rennir

Mae llety a rennir yn gynyddol ddod yr unig ddewis tai fforddiadwy i bobl ifanc sengl, ond mae cyflenwad cyfyngedig ac mae llawer o'r llety hwn ym Mangor wedi'i dargedu tuag at y farchnad myfyrwyr.


Mae diffyg llety a rennir yn cyfyngu'n sylweddol ar y dewisiadau tai fforddiadwy sydd ar gael i bobl sengl, yn enwedig y rheini sydd o dan 35 mlwydd oed ac yn derbyn lwfans tai lleol.

Yr Angen am Dai Fforddiadwy

Mae Asesiad Marchnad Dai Lleol 2018 yn adnabod diffyg blynyddol o 231 tŷ fforddiadwy ar draws Gwynedd.

Cysgu ar y Stryd

Dangosodd cyfrifiad swyddogol y bobl sy'n cysgu ar y stryd ym mis Tachwedd 2017 bod 3 pherson yn cysgu ar y stryd yng Ngwynedd, fodd bynnag, amcangyfrifodd gwaith a gynhaliwyd a thystiolaeth a gasglwyd yn y cyfnod cyn y cyfrifiad y gallai fod 30 person ychwanegol yn cysgu ar y stryd yng Ngwynedd.



Ffig 7: Ffynhonnell: StatsCymru

Yn ystod dau chwarter olaf 2017/18, gweithiodd y gwasanaeth allgymorth a gomisiynwyd gyda chyfanswm cyfun o 184 o bobl yn cysgu ar y stryd, yn cysgu ar soffas, a'r rheini sydd dan fygythiad o ddod yn ddigartref ar draws Gwynedd.

Mae mwyafrif y bobl sy'n cysgu ar y stryd ym Mangor, fodd bynnag, mae unigolion hefyd yn cysgu ar y stryd yn ardaloedd mwy gwledig y Sir. Mae lefelau cynyddol o gysgu ar y stryd yn her i Wunedd, ynghyd â nifer o Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru.

Prif Ganfyddiadau

Roedd cyflwyniad Deddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi newid deddfwriaethol a diwylliannol yn ymateb y Cyngor i ddigartrefedd. Mae Cyngor Gwynedd yn gosod blaenoriaeth uchel ar atal digartrefedd, gan ganolbwyntio ar ddarparu datrysiadau wedi'u teilwra'n unigol ar gyfer ei gwsmeriaid.

Dyma brif ganfyddiadau'r Adolygiad Digartrefedd:

Lefelau Digartrefedd ar draws Gwynedd

- Mae galw cynyddol ar y gwasanaeth Datrysiadau Tai yn dilyn gweithrediad Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae nifer cynyddol o bobl yn ddigartref neu yn cael eu bygwth â digartrefedd yng Ngwynedd. Mae tystiolaeth trwy gydol yr Adolygiad yn awgrymu y bydd y cynnydd hwn yn parhau.
 - Dyma brif achosion digartrefedd yng Ngwynedd:
 - Colli llety rhent neu glwm
 - Gadael carchar
 - Rhieni a pherthnasau yn amharod i letya mwyach
 - Perthynas yn chwalu
 - Cam-drin Domestig
 - Mae niferoedd uchel o bobl mewn llety dros dro, a defnydd uchel o lety Gwely a Brecwast. Mae angen gwneud gwaith pellach i lwyr ddeall yn well anghenion llety dros dro, a sut yr eid i'r afael â hyn orau, gan gynnwys y galw amcanol i'r dyfodol, drwy ddatblygu cynllun llety dros dro.
- Mae cyfran uchel iawn o bobl sengl yn ddigartref neu yn cael eu bygwth â digartrefedd. Bydd angen datblygu dewisiadau tai a datrysiadau atal penodol er mwyn cyfarch anghenion pobl sengl.

Cysgu ar y Stryd

- Mae nifer gynyddol o bobl yn cysgu ar y stryd ar draws Gwynedd, fel y dangoswyd gan nifer o ffynonellau data a chefnogwyd gan ymatebion i ymgynghoriad
- Mae data gan y gwasanaeth allgymorth yn nodi problem sylweddol gyda chysgu ar y stryd a chysgu ar soffas ym Mangor. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o gysgu ar y stryd yng Ngwynedd a gallu adnabod unrhyw dueddiadau a phatrymau, mae angen datblygu bas data neu daenlen syml er mwyn cofnodi canfyddiadau allgymorth.
- Mae angen datblygu gwasanaethau a dargedir mewn ymateb i'r angen hwn sy'n tyfu, gan gynnwys darpariaeth mynediad uniongyrchol hyblyg yn unol â chynnig *No Second Night Out* (NSNO).

Y Gwasanaethau sydd ar Gael i Atal Digartrefedd

- Mae gwasanaeth Datrysiadau Tai Gwynedd yn darparu gwasanaeth o ansawdd da iawn, ac mae wedi cael llwyddiant arwyddocaol drwy rwystro a chynorthwyo gyda digartrefedd, gyda ffocws

cryf ar roi'r cwsmer yn gyntaf. Mae integreiddiad y timau Datrysiadau Tai, Cofrestr Tai a Chefnogi Pobl yn darparu gwasanaeth integredig i gwsmeriaid, fodd bynnag, efallai bod cyfleoedd pellach i symleiddio'r gwaith a darparu gwasanaeth mwy cysylltiedig.

- Mae maint llwyth achosion presennol y Swyddogion Datrysiadau Tai yn anhylaw ac nid yw'n gynaliadwy yn yr hirdymor. Mae'r llwyth achosion uchel yn effeithio ar allu'r tîm i atal a chynorthwyo gyda digartrefedd yn llwyddiannus, gydag effaith anochel hyn felly ar lefel y lleoliadau mewn llety dros dro a Gwely a Brecwast. Mae angen adolygu llwyth achosion, strwythur, systemau, prosesau ac adnoddau i sicrhau bod llwyth achosion yn aros ar lefel ymarferol a bod cyfleoedd am atal effeithiol yn cael eu huchafu.
- Mae ardal ddaearyddol fawr a natur wledig y Sir yn peri heriau penodol yng nghyswllt darpariaeth gwasanaeth. Darperir y gwasanaeth o bedwar lleoliad ar draws Gwynedd. Er bod hyn yn gwneud y gwasanaeth yn hygyrch i gwsmeriaid, fodd bynnag, mae'n effeithio'n sylweddol ar adnoddau staff, ac, o ganlyniad, llwyth achosion a morâl. Gellid cynnal gwerthusiad dewisiadau bach i ystyried sut y gellid darparu'r gwasanaeth Datrysiadau Tai wrth symud ymlaen, darparu gwasanaeth effeithiol ar draws Gwynedd gyfan, tra'n lleihau'r effaith ar staff.
- Mae'r gwasanaeth Datrysiadau Tai yn gallu atal a chynorthwyo gyda digartrefedd yn llwyddiannus, ac roedd ganddo'r ganran uchel o achosion atal a chynorthwyo llwyddiannus ledled Gogledd Cymru yn 2016/17. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn gynaliadwy.
- Ceir nifer o enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth wych i atal digartrefedd, ac mae angen parhau i ddatblygu'r partneriaethau hyn a gweithredu protocolau ar y cyd. Mae angen dull mwy cyfun at ymyrraeth gynnar ac ataliad gyda chydweithwyr gofal cymdeithasol oedolion. Mae hyn yn benodol wir ar gyfer ymateb i gleientiaid sydd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys iechyd meddwl gwael, i sicrhau bod y gefnogaeth gywir mewn lle i ddatrys yr anghenion cefnogaeth a meddygol sylfaenol.
- Mae angen cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Datrysiadau Tai a'r gwasanaethau eraill sydd ar gael ar draws Gwynedd i sicrhau bod partneriaid a chwsmeriaid yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael, a sut i gael mynediad ato. Mae hyn yn arbennig o bwysig i gyflawni ymyrraeth gynnar ac ataliad.
- Mae angen system TGCh integredig addas i bwrpas ar gyfer digartrefedd, cefnogi pobl a'r Gofrestr Tai.

Y Llety a'r Gefnogaeth sydd Ar Gael i Bobl Ddigartref neu Bobl sydd dan Fygythiad o fod yn Ddigartref

- Perchen-feddiannaeth yw'r brif ddaliadaeth yng Ngwynedd. Fodd bynnag, mae cael mynediad at y denantiaeth hon wedi dod yn gynyddol anoddach o ystyried bod prisiau tai wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chymhareb fforddiadwyedd prisiau tai yn 2017 yn 5.8, o gymharu â 5.42 yng Nghymru.
- Mae'r sector rhentu cymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu llety fforddiadwy yng Ngwynedd. Fodd bynnag, mae nifer y tai rhent a roddir i denantiaid newydd yn gorbwyso nifer y bobl ar y gofrestr tai ymhell, ac mae yn arbennig o wir am lety i bobl sengl a llety dwy ystafell wely.

- Mae'r sector rhentu preifat yn chwarae rhan bwysig mewn darparu llety ar gyfer amryw bobl a grwpiau incwm nad ydynt yn gallu cael mynediad i berchen-feddiannaeth neu rentu cymdeithasol. Mae mynediad i'r sector rhentu preifat yn cael ei ddefnyddio'n aml i atal digartrefedd. Fodd bynnag, colli llety rhentu preifat yw'r prif reswm am ddigartrefedd yng Ngwynedd. Mae'n mynd yn gynyddol anoddach i gwsmeriaid Datrysiadau Tai gael mynediad i lety rhent preifat; mae hyn yn rhannol oherwydd fforddiadwyedd, marchnad gystadleuol, ac amharodrydd gan landlordiaid i dderbyn tenantiaid sy'n derbyn budd-daliadau, yn arbennig mewn perthynas â phryderon yn ymwneud â Thaliadau Uniongyrchol.
- Mae fforddiadwyedd yn broblem arwyddocaol mewn rhannau o Wynedd o ran perchen-feddiannaeth a rhentu preifat. Mae lefelau incwm isel a dibynadwyedd ar fudd-daliadau gan bobl sydd angen tŷ yn gwaethgu'r broblem ymhellach. Mae diffygion arwyddocaol rhwng cyfraddau Lwfans Tai Lleol a lefelau rhentu preifat cyfartalog.
- Bydd yr effaith bresennol ac i'r dyfodol o ran diwygio lles a osodwyd yn erbyn sefyllfa anodd yn wyneb yr hinsawdd economaidd yn parhau i beri heriau penodol ac yn golygu ei bod yn bwysicach fyth bod gwasanaethau i'r rheini sydd mewn perygl o fod, neu yn, ddigartref, mor effeithiol ag y bo modd.
- Mae angen uchafu mynediad i dai cymdeithasol ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref.
- Mae angen adolygu'r cynnig i landlordiaid er mwyn sicrhau bod cynnig cynhwysfawr a chystadleuol yn cael ei ddatblygu i landlordiaid sy'n galluogi cleientiaid nid yn unig i gael mynediad i'r sector rhentu preifat, ond hefyd i gynnal y llety hwn yn llwyddiannus. Byddai hyn yn hollbwysig yn sgil datblygiad Wylfa.
- Mae angen datblygu amrediad o ddewisiadau tai fforddiadwy ar gyfer pobl sengl o dan 35 mlwydd oed; gall hyn gynnwys cynlluniau lletya, rhannu tai a darpariaeth â chefnogaeth.
- Mae lefelau uchel o alw am lety â chefnogaeth. Byddai asesiad anghenion ffurfiol yn cynnig dealltwriaeth gynhwysfawr o'r angen am wasanaethau cymorth yn ymwneud â thai ar draws Gwynedd, a fyddai wedyn yn hysbysu strategaeth gomisiynu gadarn.

Anghenion Grwpiau a Adnabuwyd

- Mae pobl ifanc yn cael eu cynrychioli ormod yn yr ystadegau digartrefedd a data cefnogi pobl, o gymharu â data poblogaeth, sy'n awgrymu diffyg dewisiadau tai fforddiadwy ac addas i bobl ifanc. Awgryma hefyd bod pobl ifanc mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref.
- Adnabu Awdit Anghenion Iechyd Pobl Ddigartref Gogledd Cymru bod gan nifer o'r bobl sy'n cysgu ar y stryd broblemau iechyd meddwl (91%) ac nad oedd y mwyafrif o'r rhain yn teimlo bod eu hanghenion iechyd meddwl yn cael eu cwrdd gan wasanaethau. Adnabu ymgynghoriad a gynhaliwyd drwy gydol yr Adolygiad ddiffyg ymgysylltiad gan wasanaethau iechyd meddwl, gyda'r gwasanaethau ond yn ymwneud â'r achosion unwaith yr oedd y cleient mewn argyfwng.
- Mae nifer uchel iawn o achosion cymhleth, gan gynnwys pobl sengl a theuluoedd gydag anghenion niferus a heriol. Mae angen cael dealltwriaeth feintiol ac ansoddol gwell am y materion hyn, ynghyd â dealltwriaeth ynglŷn ag yw'r ddarpariaeth gyfredol yn cwrdd ag anghenion y cwsmeriaid hyn.

- Bu cynnydd yn nifer y bobl a gafodd eu troi allan o dai cymdeithasol (CCG) o ganlyniad i ôl-ddyledion rhent. Mae'n hanfodol bod tenantiaid tai cymdeithasol yn gallu cael mynediad at gyngor ar ddyledion ac arian, a dylid defnyddio llwybrau cyfeirio gyda Chyngor ar Bopeth yn llawn. Mae angen adolygu protocolau ar y cyd gyda phartneriaid Cymdeithasau Tai, yn enwedig wrth edrych i leihau effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent.

Heriau i'r Dyfodol

Er y cafwyd cryn lwyddiant ar atal digartrefedd yng Ngwynedd, mae nifer o ffactorau a allai o bosib effeithio ar nifer y bobl sy'n wynebu digartrefedd. Mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu cydnabod a, ble bynnag y bo modd, bod gwasanaethau yn cael eu gwella er mwyn lleihau'r effaith negyddol ar bob un o'r ffactorau.

Cenedlaethol

- Yr effaith barhaus ar yr hinsawdd economaidd, pwysau ariannol a dyledion personol.
- Pwysau ariannol ar gyllidebau llywodraeth leol a gwasanaethau digartrefedd, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch yr arian Digartrefedd cyfredol a symud i ariannu hyblyg.
- Mae nifer o'r gwasanaethau sy'n cynnal pobl yn eu tenantiaethau eu hunain neu'n darparu dewisiadau llety amgen yn cael eu hariannu drwy Gefnogi Pobl. Mae'n bwysig cydnabod y byddai unrhyw leihad yn yr arian yn cael effaith arwyddocaol ar lefelau digartrefedd i'r dyfodol.
- Gallai lleihad yn nifer y tai rhentu cymdeithasol drwy werthiant hawl i brynu hanesyddol, ynghyd â lleihad mewn llefydd gwag, arwain at lai o lety ar gael i'r rheini ar y gofrestr tai.
- Mae Diwygio Lles eisoes wedi dechrau cael effaith ar lefelau digartrefedd, ac mae'n debygol bod newidiadau diwygio lles pellach a adnabuwyd o fewn yr Adolygiad yn parhau i effeithio ar allu unigolion i gwrdd â'u costau tai. Yn benodol, mae cyflwyniad Credyd Cynhwysol wedi arwain at gynydd mewn ôl-ddyledion rhent ymysg tenantiaid cymdeithasol, ac mae hyn yn debygol o gynyddu, ac o bosib arwain at gynydd mewn pobl yn cael eu troi allan, fel y tystiwyd mewn ardaloedd eraill yng Nghymru a Lloegr.
- Gallai pwysau ariannol parhaus ar bobl arwain at orlenwi a chwalu perthnasau teuluol.
- Rhentu Doeth Cymru - gall y gofynion cynyddol ar landlordiaid barhau i arwain at rai landlordiaid, gan gynnwys ar raddfa lai, neu landlordiaid 'damweiniol' yn dewis gwerthu eu heiddo, gan leihau nifer yr eiddo rhentu preifat sydd ar gael ar gyfer cleientiaid Datrysiadau Tai.
- Byddai cael gwared ar fwriadoldeb i deuluoedd digartref erbyn 2019 yn cael effaith ar wasanaethau, gydag angen i ddod o hyd i ddewisiadau llety addas i deuluoedd gydag anghenion cymhleth a niferus yn aml, ynghyd â hanes tenantiaeth wael, yn rhoi pwysau ar y tîm Datrysiadau Tai.
- Byddai cynnydd mewn cyfraddau morgais yn arwain at gynydd yn y bobl nad ydynt yn gallu cwrdd â thaliadau eu morgais, gyda chynnydd tebygol mewn adfeddiannu, yn cynnwys perchnogion tai a landlordiaid prynu i osod.
- Diwedd ar forgeisi llog yn unig - mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn amcangyfrif y bydd 600,000 o forgeisi llog yn unig wedi cyrraedd diwedd eu cyfnod erbyn 2020 - ac nid oes gan hanner y benthydwyr hyn fodd o dalu'r ddyled yn ôl. Mae disgwyl i draean o'r diffygion fod yn fwy na £50,000.

Rhanbarthol

- Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn gofyn am dai a chefnogaeth briodol i atal cynnydd mewn digartrefedd ymysg pobl hŷn.
- Mae'r cynnydd cenedlaethol ym mhoblogaeth carchardai yn cynyddu risg pobl o golli eu cartref tra maent yn y ddalfa. Mae'r carchar newydd yn Wrecsam yn dueddol o arwain at gynnydd mewn pobl sy'n gadael carchar yn cael mynediad at y ddarpariaeth gwasanaeth yng Ngwynedd.

Lleol

- Mae diffyg llety un ystafell wely ac, yn benodol, dewisiadau tai fforddiadwy ar gyfer pobl o dan 35 mlwydd oed, yn debygol o arwain at gynnydd mewn pobl sengl nad ydynt yn gallu datrys eu problemau tai eu hunain. Bydd hyn yn arwain at fwy o alw gan y grŵp cwsmeriaid hwn ar y gwasanaeth Datrysiadau Tai a gwasanaethau cymorth a chynghor eraill.
- O 1 Ebrill 2018, bydd gofyn i unrhyw eiddo a rentir yn y sector rhentu preifat yn arferol i fod â gradd perfformiad ynni E neu uwch ar Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC). Bydd y rheoliadau yn dod i rym i lety gosod newydd ac wrth adnewyddu tenantiaethau o 1 Ebrill 2018, ac i bob tenantiaeth bresennol ar 1 Ebrill 2020. Bydd gan hyn effaith arwyddocaol ar Wynedd, o ystyried bod llawer o'r llety rhentu preifat yn y Sir yn hŷn, ac ni fyddant yn cwrdd â'r safonau gofynnol.
- Mae problemau fforddiadwyedd a'r mynediad cyfyngedig i lety rhentu preifat, gan gynnwys dewisiadau llety a rennir, yn ei gwneud yn gynyddol anoddach i'r gwasanaeth Datrysiadau Tai allu dod o hyd i ddewisiadau tai fforddiadwy a chynaliadwy i gleientiaid. Oni bai bod llety fforddiadwy ar gael, rhagwelir y bydd digartrefedd yn parhau i gynyddu.
- Bydd Wylfa Newydd yn creu galw ychwanegol am dai gan hyd at 8,700 o adeiladwyr ar ei uchaf yng nghanol y 2020au. Bydd galw arwyddocaol am dai ychwanegol dros y cyfnod adeiladu a thu hwnt, sy'n debygol o effeithio ar y rhai mwyaf bregus, ac achosi dadleoliad posib yn y sector rhentu preifat.

Camau Nesaf

I sicrhau bod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adolygiad hwn yn adlewyrchiad gwir o ddigartrefedd yng Ngwynedd, bydd yr adolygiad ar gael i bob budd-ddeiliad a'r cyhoedd ehangach er ymgynghoriad.

Yn dilyn yr adolygiad hwn ac ymatebion i'r ymgynghoriad, mae gofyn i'r Cyngor greu a chyhoeddi Strategaeth Ddigartrefedd. Mae Cyngor Gwynedd yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol eraill ledled Gogledd Cymru i greu Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol. Cefnogir hyn gan Gynllun Gweithredu Darpariaeth Leol i ymateb i'r problemau yng Ngwynedd a adnabuwyd yn yr Adolygiad Digartrefedd.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda'i bartneriaid i atal digartrefedd yng Ngwynedd, ac mae'n gweithio gydag Awdurdodau cyfagos i ddatblygu dulliau a mentrau cyfun i atal a lleihau digartrefedd ar draws Gogledd Cymru.

Eitem 6

Cyfarfod	Pwyllgor Craffu Gofal
Dyddiad	15 Tachwedd 2018
Teitl	Recriwtio a chadw staff gofal cartref yng Ngwynedd - Maes Pobl Hyn
Awdur	Rhion Glyn, Uwch Reolwr Busnes
Aelod	Gareth Roberts, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant

1. Cyflwyniad

- 1.1. Ym mis Ebrill 2018, comisiynwyd Cwmni CELyn i ymchwilio i mewn i'r maes recriwtio a chadw staff gofal cartref yng Ngwynedd. Roedd cydnabyddiaeth fod yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn wynebu heriau fel comisiynydd a darparwr ac y byddai'r ymchwil yn sail ar gyfer cynorthwyo i ymateb i'r sefyllfa. Yn ogystal â chyflwyno casgliadau'r gwaith ymchwil hyd yma, bydd yr adroddiad hwn yn amlygu'r cyd-destun ac yn tynnu sylw at waith sydd eisoes ar y gweill yn y maes gofal cartref. Fe fydd hefyd yn rhoi sylfaen a man cychwyn i'r Pwyllgor Craffu ystyried y gwaith mwy manwl sydd ei angen er mwyn gwella'r sefyllfa.
- 1.2. Yn hanesyddol mae wedi bod yn her sicrhau gofal cartref digonol yn ardal Meirionnydd. Erbyn hyn, mae'r sefyllfa wedi dirywio ac am y tro cyntaf, mae rhestr aros am ofal mewn rhannau o ardal Arfon a Phen Llŷn. Mae hyn yn destun pryder i'r adran ac yn golygu fod nifer o bobl yn gorfod mynd heb ofal ar draws y sir. Yn aml iawn effaith hyn ydy pwysau ychwanegol ar deuluoedd, neu unigolion yn gorfod aros mewn ysbytai yn hirach nag sydd ei angen. Nid yw'r broblem hon yn unigryw, ar hyd y wlad mae adroddiadau o bwysau mawr ar y sector ond yng Ngwynedd mae'r sefyllfa wedi gwaethygu yn sylweddol yn ddiweddar. Mae'r oblygiadau o beidio â gallu cynnal pobl yn eu cartrefi yn effeithio nifer fawr o bobl, staff a phartneriaid megis y Bwrdd Iechyd.
- 1.3. Yn ychwanegol at hyn Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn atgyfnerthu'r angen inni fod yn rhoi unigolion yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud, i weithio gyda phartneriaid mewn modd sy'n atal anghenion rhag cynyddu. Hefyd mae'n pwysleisio'r angen i sicrhau llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr fod yn cymorth iawn yn cael ei roi ar yr adeg iawn.
- 1.4. Roedd y briff ar gyfer yr ymchwil fel a ganlyn: Ymchwilio i mewn i'r problemau recriwtio a chadw staff gofal cartref yng Ngwynedd a chanfod:
Beth yw'r sefyllfa yng Ngwynedd, ar draws y sector?
Beth yw'r rhesymau tu ôl i hyn?
Beth yw'r ymarfer da sydd yn seiliedig ar ymchwil?

2. Cefndir

- 2.1. Mae poblogaeth Gwynedd yn heneiddio, yn enwedig y boblogaeth o'r oedran 85 i fyny. Mae cyfartaledd oedran y bobl sydd yn derbyn gwasanaeth gofal cymdeithasol yng Ngwynedd yn 84 oed ac mae 1 o bob 4 o bobl hynaf Gwynedd yn byw gyda dementia. Mae hyn yn golygu her enfawr mewn sicrhau cefnogaeth addas, amserol a chynaliadwy ar gyfer y boblogaeth hŷn.
- 2.2. Mae data Cyfrifiad dros y degawd diwethaf yn dangos fod poblogaeth yr oedran 65 a drosodd wedi cynyddu yng Ngwynedd o 28% a gyda'r boblogaeth oed 85 a drosodd wedi cynyddu o 157%. Mae disgwyl y bydd yn gynydd pellach o 68% erbyn 2030.
- 2.3. Mae Cynllun Heneiddio'n Dda Gwynedd (2016) yn nodi fod canran uchel o aelwydydd lle nad oes ond un person, a'r person hwnnw dros 50 oed. Mae'r ganran eisoes yn uwch na'r hyn yw yng ngweddill Cymru - 28% o gymharu â 24% - ac mae disgwyl iddo godi i 32% erbyn 2030. Ar yr un pryd, mae dyheadau pobl hŷn - a dyheadau cymdeithas yn gyffredinol - yn newid. Mae pob arolwg yn dangos bod pobl hŷn yn dymuno aros yn eu cartrefi eu hunain, bod mor annibynnol ag sy'n bosibl a chael hynny ag sy'n bosibl o ddewis. Mae'n amlwg y bydd oblygiadau i hyn o ran yr angen i ddiwallu anghenion gofal cyfran gynyddol o'r boblogaeth a hynny ar adeg pan fo cyllidebau awdurdodau lleol o dan wasgfa barhaus. Mae paratoi ar gyfer heneiddio'n dda am fod yn her i bawb, ac mae gan bawb ran i'w chwarae wrth geisio'r atebion gorau i drigolion hŷn.
- 2.4. Prif nod ac egwyddorion yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ydy:

"Darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i drigolion 18 oed a drosodd sydd angen cyngor gwybodaeth, cymorth neu ofal oherwydd anghenion penodol. Prif egwyddorion yr Adran yw:

- *Sicrhau Llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth arnynt*
- *Bydd ein gwasanaethau yn canolbwyntio ar bobl, ac yn rhoi llais cryf iddynt yn y penderfyniadau a wneir am y cymorth a gânt*
- *Caiff gwasanaethau eu darparu drwy bartneriaethau a drwy gydweithredu*
- *Bydd gwasanaethau'n ceisio atal anghenion unigolion rhag cynyddu ac ymdrechu i sicrhau bod y cymorth iawn ar gael ar yr adeg iawn*

Mae'r pedwar egwyddor uchod yn plethu i gyflawni un nod yr Adran sef i alluogi oedolion Gwynedd i : ***'Fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw'***.

- 2.5. Unwaith y daw person at sylw'r adran, y cam cyntaf ydy fod gweithiwr yn trafod gyda'r unigolyn beth sydd yn bwysig iddynt a sut y gallent fynd ati i gyflawni hynny. Fe fydd hyn yn cwmpasu anghenion iechyd a gofal unigolyn, ac yn digwydd ar y cyd â gweithwyr yn y maes iechyd. Os oes anghenion gofal a chefnogaeth yn cael eu hamlygu bydd unrhyw drefniadau ar gyfer ymateb i hynny yn cael eu trafod a'u cadarnhau gyda'r unigolyn, ac yn aml iawn y teulu. Os oes angen penodol am ofal cartref, mi fydd y gweithiwr arweiniol (a all fod yn weithiwr Iechyd neu ofal cymdeithasol) yn cysylltu gyda'r Swyddogion Broceriaeth o fewn yr adran a hwythau yn mynd ati i ddarganfod darparwr sydd yn gallu darparu'r gofal.

3. Casgliadau'r ymchwil hyd yma

Caiff casgliadau cychwynnol yr ymchwil eu crynhoi isod:

- 3.1. Mae'r ymchwil wedi dangos fod sefyllfa recriwtio a chadw staff gofal cartref presennol Gwynedd yn broblemus iawn ac yn 'argyfyngus' erbyn hyn. Mae'r sefyllfa yn un gymhleth, nid oes un rheswm penodol yn achosi'r broblem, ond yn hytrach cyfuniad o faterion a ffactorau.
- 3.2. Mae staff gofal cartref yn gwbl hanfodol ar gyfer cadw pobl hŷn gartref cyn hired â phosib. Mae rhestrau aros mewn mannau lle nad yw wedi bod yn broblem o'r blaen ac mae ddarparwyr yn adrodd eu bod yn chael hi'n anodd ymateb i'r galw oherwydd diffyg capasiti a'i bod hi'n anodd iawn rhedeg fel 'busnes' erbyn hyn. Roedd y geiriau "crisis" a "breaking point" yn cael eu defnyddio yn aml gan ddarparwyr i ddisgrifio difrifoldeb y sefyllfa.
- 3.3. Mae'r galw am ofal yn y gymuned yn cynyddu fel mae'r boblogaeth yn heneiddio ond bellach nid oes gweithlu digonol i ymateb i'r galw. Nid yw'r sefyllfa yn unigryw i Wynedd, mae sefyllfa ariannol heriol y wlad yn cael effaith ar yr arian sydd ar gael i'r maes ac felly yn effeithio'r lefel tâl y mae'r awdurdod yn gallu ei dalu i ddarparwyr. Serch hynny, mae yna 'ffactorau a materion unigryw' sydd o fewn gallu Cyngor Gwynedd i ymateb a dylanwadu arnynt ar gyfer cyfarch y sefyllfa a chreu model cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- 3.4 Gellir crynhoi casgliadau'r o dan y penawdau canlynol:

3.4.1 Tâl ac amodau gwaith

Mae'r gwaith ymchwil wedi dangos fod 'cadw' staff presennol yn gymaint o broblem â recriwtio o'r newydd gyda ddarparwyr yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am bŵl bychan o staff. Mae gweithwyr yn teimlo fod eu lefel tâl yn rhy isel i 'fyw' arno, tra bo cyfrifoldebau'r swydd a'r disgwyliadau sydd arnynt wedi cynyddu dros y blynyddoedd. Adroddai staff hefyd ei fod yn anodd cadw cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith oherwydd yr angen iddynt fod ar gael am oriau maith, a'u bod yn awyddus i weithio oriau bloc/shifftiau sefydlog er mwyn cael sefydlogrwydd. Cânt eu denu yn aml i weithio yn y sector lechyd ac yn y maes manwerthu.

Cesglir fod gweithlu mewnol y Cyngor yn teimlo bod y newidiadau diweddar yn eu hamodau gwaith yn cael effaith negyddol ar gadw staff, gyda hyn yn ei dro yn effeithio ar recriwtio gofalwyr newydd wrth iddynt hwy ddod i glywed am y rhesymau pam fod gweithwyr yn gadael.

3.4.2 Delwedd, statws a phroffil

Wrth siarad gyda gweithwyr fel rhan o'r gwaith ymchwil, dywedodd rhai ohonynt eu bod yn teimlo fod diffyg cydnabyddiaeth i'r gwaith pwysig y mae gofalwyr cartref yn ei wneud i gadw pobl gartref. Nid yw gofalwyr yn gwybod beth fydd yn eu hwynebu wrth fynd i mewn i gartref ac mae angen bod yn barod i ymateb yn y fan a'r lle.

Mae pryderon hefyd o ran y gofyn i gofrestru gofalwyr erbyn 2020, sydd yng ngolwg gweithwyr yn gosod cyfrifoldebau pellach arnynt heb y gydnabyddiaeth mewn tâl i gefnogi hynny.

3.4.3 Denu pobl i'r maes

Er bod gwaith wedi bod i ddenu gweithwyr i'r maes ar y cyd gydag ysgolion, Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith, mae hynny wedi digwydd ar sail ad-hoc. Mae hefyd diffyg llwybr gyrfa glir wedi bod yn y maes, yn annhebyg i'r sefyllfa mewn meysydd eraill e.e. gweithwyr ieuchyd.

3.4.4 Trefniadau comisiynu

Ymddengys fod trefniadau comisiynu yn cael effaith ar allu darparwyr i gynnig gwasanaeth cynaliadwy, ac ar y telerau ac amodau maent yn eu cytuno gyda'u staff. Mae pryderon wedi eu codi gan rai darparwyr nad ydi'r busnes gofal bellach yn broffidiol. Roedd hefyd deimladau cryf gan ddarparwyr nad yw'r sector yn gynaliadwy a'n bod mewn argyfwng ar hyn o bryd gyda'r broblem o recriwtio a chadw staff ar ei gwaethaf.

4. Ystyriaethau eraill

- 4.1 Mae gan Gyngor Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr brosiect ar waith sydd yn edrych ar fodel gwahanol o ddarparu gofal cartref. Y bwriad yw comisiynu ar y cyd a gweithio'n agosach gyda darparwyr gofal i wireddu canlyniadau i drigolion, yn hytrach na thalu am dasgau neu oriau penodol.
- 4.2 Mae'r prosiect hyd yma yn awgrymu fod modd sicrhau gwell gwasanaeth i drigolion, tra ar yr un pryd lleihau'r galw am gefnogaeth trwy weithio gyda'r unigolyn a'r teulu ar y canlyniadau, gweithio yn fwy cymunedol a hyblyg, a rhoi mwy o allu i weithwyr gofal cartref wneud penderfyniadau. Ond er felly y manteision a ragwelir mae'r ymchwil yn amlygu'r her sylweddol o ran sut y gallai gofalmwyr cartref weld y newid, y risg o golli staff profiadol yn ystod cyfnod o ansicrwydd, a'r angen felly i sicrhau eu bod wedi eu cynnwys ar hyd y daith ac yn perchnogi'r newid.
- 4.3 Rhoddwyd cyflwyniad i aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal ar lwyddiannau dechreuol y prosiect ar y 29ain o Fai 2018.

5. Camau nesaf

Mae peth gwaith eto i'w wneud er mwyn cwblhau'r ymchwil, ac mae'r casgliadau hyd yma wedi dangos fod elfennau sydd angen gwaith pellach. Mae gwaith eisoes yn digwydd gyda gweithwyr gofal cartref ar y model gwahanol o ddarparu, a bydd hynny yn parhau. Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu nawr ystyried pa waith pellach sy'n angenrheidiol er mwyn lleihau effaith y sefyllfa bresennol a gwaredu rhwystrau rhag darparu gwasanaeth gofal cartref o ansawdd sy'n rhoi'r unigolion yn ganolog. Bydd yr adroddiad terfynol ar gael i aelodau er mwyn cyflawni'r gwaith hwnnw.